

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

10fed HYDREF 2023 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

1. **Presennol** - Ceri Owen (Cad), Justin Davies, Erfyl Williams (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni), Siân Dafydd, Gareth Jones (Talysarn), Cyng. Peter Thomas.

Roedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Ymddiheuriadau –derbyniwyd ymddiheuriadau gan Judith Humphreys, Dylan Herbert a Barry Bracegirdle (Penygroes), Ffion Jones (Nantlle), Harry Owen (Talysarn) a ddim yn bresennol oedd Peter Bridges (Talysarn) a Dafydd Thomas (Nebo).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes Ceri Owen.

2. **Datgan Buddiant** - Justin Davies a Gareth Jones yn datgan buddiant yn nhrefodaeth Tir Cwtin (pwynt 4 ar yr agenda) - nododd y gadeiryddes nad oedd am ofyn iddynt adael y cyfarfod ond pwysleisiodd nad oeddynt i roi unrhyw farn ar y mater dan sylw yn ystod y drafodaeth. Nia Jones (Clerc) datgan buddiant ym mhwynt 9 - Cyflog Clerc a phwynt 12 pris atgyweirio cwt Mynwent Gorffwysfa. Hefyd Siân Dafydd yn datgan buddiant ym mhwynt 12 pris atgyweirio cwt Mynwent Gorffwysfa.

3. **Gwadd - Robin Williams Safle Taldrwst, Lôn Ddŵr, Llanllyfni** - yn anffodus derbyniwyd ymddiheuriad cyn y cyfarfod nad oedd Mr Williams yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfod heno.

4. **Tir Cwtin** - Fel y trafodwyd ynghynt roedd y Cyngor Cymuned wedi bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus gyda thrigolion Penygroes, ond yn dilyn cael cyngor pellach gan adran gyfreithiol Un Llais Cymru buasai cynnal arolwg (drwy holiadur) a dim cynnal ymgynghoriad yn well. Barn y Cyngor Cymuned oedd gan fod hyn yn gyngor cyfreithiol yna bod angen cymryd y cyngor yma. Yn dilyn o'r cyfarfod diwethaf teimlai'r cynghorwyr nad oedd digon o ymgynghoriad wedi bod gyda'r cyhoedd ym Mhenygroes am hyn. Cynigwyd ac eiliwyd i barhau gyda gwneud holiadur. Y Cyngor Cymuned i gyfarfod i drafod cynnwys yr holiadur a mynd ymlaen o hyn. Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bu i'r cyhoedd adael y cyfarfod.

5. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 12fed Medi 2023** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

6. **Materion yn codi o'r cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** - yn dilyn holi Cyngor Gwynedd, adroddwyd nad oes modd cael caniatâd i fynediad i'r CCTV yn y safle bws. Os bydd rhywbeth yn digwydd ar y safle yna gall yr heddlu gael caniatâd i edrych ar y CCTV. Bin sbwriel tu allan i 12 Stryd Fawr Penygroes - dim ymateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am hyn. Y clerch i ddilyn fyny ar hyn. Trydanwr lleol wedi cynnig i dynnu'r golau Nadolig sydd ar yr adeilad hwn. Derbyniwyd y cynnig hwn yn unfrydol. Y clerch i lythyru'r perchennog am hyn. Hedgehog Highway - elusen Freshfield yn Nebo ddim yn delio gyda draenogod felly yn dilyn trafod penderfynwyd y buasai yn well gan bawb weld yr arian a oedd wedi ei benodi i hyn yn mynd yn lleol yn hytrach na cenedlaethol, felly penderfynwyd yn unfrydol i adael hyn am nawr a gweld os ddaw prosiect arall o'r un math i'r olwg yn lleol. Angen gofyn i'r PCSO lleol os yn fodlon newid i ddod i gyfarfod mis Rhagfyr ac erbyn hyn paw bi yrru cwestiynau ymlaen i'w yrru iddo ymlaen llaw.

7. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir - roedd adroddiad wedi ei derbyn gan Cyng. Peter Thomas ac roedd pawb wedi cael cyfle i'w gweld cyn y cyfarfod. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad, ond gofynnwyd gan Cyng. Thomas os oedd modd cael golau Nadolig i roi ar y Ganolfan yn Nhalysarn. Trafodwyd nad oes modd gosod golau Nadolig ar bolion yn Nhalysarn felly cynigwyd ac eiliwyd i gael dau olau i'w roi ar ochr y ganolfan. Hefyd, codwyd y pwynt bod yna lei roi un golau ychwanegol yn Llanllyfni felly cytunwyd i archebu golau arall i'w osod yma. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei adroddiad.

8. Adroddiadau cyfarfodydd is-bwyllgorau a gynhaliwyd - cafwyd is-bwyllgor cyllid ar 26ain Medi ble trafodwyd y gyllideb. Rhoddwyd y sgwrs drosodd i Gareth ac esboniodd i bawb beth oedd wedi ei drafod yn yr is-bwyllgor, ac roedd pawb wedi cael copi o'r cofnodion ymlaen llaw i edrych drostynt. Esboniwyd ar hyn o bryd bod yna £6000o dan y teitl "Arall" yn y gyllideb - a ydi hyn yn ormod? Hefyd, holwyd a ydi £600 yn ddigonol o dan y teitl "Cynnal a Chadw"? Clwb leuenctid - cafwyd adroddiad fod popeth yn mynd yn dda gyda'r clwb a bydd anfoneb yn cael ei dderbyn mis Mawrth 2024 am hyn. Mae £15,000 yn y gyllideb ar gyfer hyn felly cynigwyd i'w adael fel hyn. Llyfrgell - y cytundeb wedi dod i ben Mawrth 2023 a dim wedi ei glywed ganddynt am ail-ddechrau, felly penderfynwyd gadael yr arian yn y gyllideb am nawr. Lwfans Cynghorwyr - rhoddwyd ffurflenni allan i'r rhai nad oedd am dderbyn y lwfans i'w lenwi a gofyn i bawb ddod a nhw yn nôl yn y cyfarfod nesaf os am ei lenwi. Holwyd beth fydd yn digwydd i'r arian lwfans os nad yw'r cynghorwyr yn ei gymryd - ei symud i "Arall" os nad oes gan rywun syniad o le i'w roi. Gofynnwyd a oes modd rhoi mwy o arian yn y "Cyfraniadau ariannol" - esboniwyd bod fformiwla i'w ddilyn gyda hyn. Codwyd y mater bod yna lawer o gynghorwyr yn rhoi llawer iawn o'u hamser i wneud gwaith i'r Cyngor Cymuned - cyfrifon, cyfreithiol, gwefan a llawer mwy - cysylltwyd gydag Un Llais i ofyn a oes modd cael talu'r cynghorwyr am eu gwasanaeth ond nid oes modd gwneud hyn gan eu bod yn gynghorwyr - ond nid oes dim yn bod ar gyflogi rhywun arall i wneud y gwaith.

9. Taflen ariannol - roedd pawb wedi derbyn copi o'r cyfrifon i fyny at 28ain Medi 2023 ac nid oedd dim yn codi ohonynt. Bu i Nia (clerc) adael y cyfarfod tra oedd y cynghorwyr yn trafod cyflog clerc.

10. Materion Pentrefi - Nasareth - adroddwyd bod lamp stryd ymlaen drwy'r adeg yn y pentref. **Llanllyfni** - parcio yn gwaethygu yn y pentref. Cwynion wedi eu derbyn am berson ar gefn motobeic (scrambler) heb helmet yn gyrru o gwmpas y pentref. **Penygroes** - parcio yn nhop y pentref wedi mynd yn ddifrifol. Gwaelod lôn i Bant Du - mae cerbydau yn parcio yn fynedfa i'r eiddo sydd yn golygu ei bod yn anodd i gerbydau ddod allan o Bant Du. Efallai y buasai gofyn i Gyngor Gwynedd rhoi llinellau melyn yna yn syniad? Draen wedi blocio yng nghornel maes parcio dros y ffordd i'r co-op ac angen ei lanhau. Grisau i fyny i lwybr Lôn Eifion ger Wynnstay angen sylw gan eu bod wedi malu ac yn beryglus. Pant yn y ffordd ger mynedfa maes parcio dros y ffordd i'r co-op ac wedi derbyn cwyn bod rhai wedi disgyn yno gan ei fod yn beryglus. Wedi derbyn caniatâd gan y person dan sylw i yrru lluniau ymlaen i Gyngor Gwynedd o'r anafiadau a'r ôl disgyn yno. Gofyn a oes modd i Gyngor Gwynedd gynnal arolwg / asesiad traffig ar y safle i weld os oes modd cael croesfan yno gan fod llawer yn croesi o'r maes parcio i'r co-op. **Talysarn** - cyflwr cyffredinol y ffyrdd yn dal i ddirywio. Y clerc i gysylltu gyda'r adrannau perthnasol am y materion hyn.

11. Polisiau - angen edrych dros y polisiau sydd yn bodoli yn barod ond hefyd angen cynnwys polisiau newydd erbyn hyn. Cynigwyd y dylid cynnal is-bwyllgor ar gyfer hyn.

12. Llwybrau a Mynwentydd - Pris atgyweirio cwt Mynwent Gorffwysfa - bu i Siân Dafydd a Nia (clerc) adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Yn dilyn dod nôl fewn adroddwyd bod y gwaith o atgyweirio'r cwt wedi ei roi i Iwan Williams a gofynnwyd i'r clerc gysylltu gydag o i gynnig y gwaith iddo. Diolchwyd am y ddau bris a oedd wedi eu derbyn ar gyfer y gwaith hwn.

13. Ystafelloedd newid CPD Talysarn Celts - roedd e-bost wedi ei dderbyn gan Alun Williams Cadeirydd CPD Talysarn Celts yn nodi nad oedd Cyngor Gwynedd wedi cwblhau'r les a bellach mae pethau yn mynd ymlaen ers blwyddyn. Y CPD wedi sicrhau grant a nawr yn gofyn am lythyr gan y Cyngor Cymuned yn cefnogi eu cais i newid defnydd y tir o faes pebyll. Trafodwyd y mater a chynigwyd ac eilwyd i gefnogi y cais hwn ac iddynt ddod yn nôl atom pan yn cael ymateb.

14. Ceisiadau ariannol - roedd y clerc wedi paratoi hysbyseb i'w roi yn Llew, gwefan y cyngor a thudalen gweplyfr. Pawb wedi gweld yr hysbyseb ymlaen llaw ac yn hapus i'w gyhoeddi.

15. Ceisiadau cynllunio – nid oedd yna geisiadau wedi dod i law yn y mis hwn.

16. Gohebiaeth – nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth a oedd wedi ei basio ymlaen i'r cynghorwyr yn y mis diwethaf.

17. Materion ariannol - cytunwyd i dalu'r pethau ar yr agenda. Antur Nantlle = £144. Ifan ac Idris = £3600. Nia Jones = £25.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 14eg Tachwedd am 7.00 o'r gloch yn Ganolfan Talysarn.